# *Ein Volk, ein Reich, ein Führer* oedd yr honiad ond nid oedd hyn yn rhwystr i amrywiaeth ddewr o wrthryfelwyr, gwrthwynebwyr ac asasiniaid mewn bwriad

**Frank McDonough. Prifysgol Lerpwl John Moores**

Crynodeb: Roedd yr Almaen Natsïaidd yn wladwriaeth unblaid. Ni allai gwrthbleidiau ond bodoli'n gyfrin gan nad oedd iddynt unrhyw statws swyddogol. Felly, ychydig iawn o dystiolaeth ddibynadwy sydd ar gael am gyfran yr Almaenwyr oedd yn gwrthwynebu'r gyfundrefn. Ond roedd gwrthwynebiad yn sicr yn bodoli, gan amrywio o'r rhai a geisiodd lofruddio Hitler, yn un pegwn, i'r rhai a wrandawai ar recordiau jas gwaharddedig, yn y pegwn arall. Roeddent yn grŵp amrywiol, ac nid oeddent i gyd yn anghymeradwyo unbennaeth. Roedd y cosbau llym a weinyddid i wrthwynebwyr yn golygu bod angen dewrder diamheuol ar gyfer unrhyw fath o wrthwynebiad.

**Cwestiynau i'w hystyried**

- Pa sectorau o'r gymdeithas Almaenig oedd yn dangos gwrthwynebiad i'r gyfundrefn Natsïaidd?
- Beth oedd cymhellion amrywiol wrthwynebwyr y gyfundrefn?
- Pam yr oedd yna gyn lleied o wrthwynebiad gwleidyddol i'r Natsïaid?
- Pam y methodd ymgais Stauffenberg i lofruddio Hitler?


© TopFoto
AFP/Getty Images

*Carl Goerdeler, Arglwydd Faer Leipzig (chwith) a Chyrnol Ludwig Beck. Gweler gwrthwynebiad y Fyddin ar y dudalen nesaf*

Mae'n anodd iawn asesu gwir lefel y gefnogaeth i'r unbennaeth Natsïaidd. Mae'r propaganda Natsïaidd yn rhoi'r argraff bod y gyfundrefn yn boblogaidd, tra bod gwrthwynebiad yn debygol o olygu arestiad, carchariad a dienyddiad posibl. Er hyn, mae'r mwyafrif o haneswyr yn derbyn bod yna fesur helaeth o gefnogaeth i gyfundrefn Hitler. O ganlyniad, roedd yna ddiffyg cefnogaeth o du'r bobl i wrthwynebiad. Yn wir, mae'n anodd mesur union lefel y gwrthwynebiad yn erbyn y gyfundrefn Natsïaidd. Nod yr erthygl hon yw pinbwyntio grwpiau ac unigolion a ymdrechodd yn ddewr i wrthwynebu cyfundrefn Hitler.

## Yr Eglwys

Mynegodd yr Eglwysi Cristnogol (Protestannaidd a Phabyddol) wrthwynebiad i ymgais y gyfundrefn Natsïaidd i danseilio athrawiaethau ac arferion Cristnogol. Yr eglwysi Cristnogol oedd yr unig sefydliadau a gafodd ganiatâd i gadw ymreolaeth sefydliadol yn yr Almaen Natsïaidd.

Roedd yna 45 miliwn o Brotestaniaid yn yr Almaen, ac roeddent yn perthyn i amrywiaeth o Eglwysi Lutheraidd a Diwygiedig. Roedd y gyfundrefn Natsïaidd am gael Eglwys Brotestannaidd ganolog ac unedig. Ym mis Gorffennaf 1933, ymunodd yr 28 eglwys Brotestannaidd daleithiol mewn un Eglwys y Reich, o dan arweiniad Esgob Ludwig Mueller. Nod y diwygiad Natsïaidd hwn oedd defnyddio grŵp a adnabyddid fel y 'Cristnogion Almaenig' (a elwid yn 'SA yr Eglwys') i hyrwyddo syniadau Natsïaidd o fewn yr Eglwys. Fodd bynnag, bu i'r gwthio yma tuag at Natsieiddio ennyn ymateb cryf o du un grŵp anghytunol, a elwid yr 'Eglwys Gyffesiadol', dan arweiniad y Parch Martin Niemöller. Roedd y grŵp hwn yn gweld ei hun fel ceidwad 'cyfreithlon' Protestaniaeth. Arweiniodd y safiad dewr hwn at ymgyrch gan y gyfundrefn Natsïaidd yn erbyn yr Eglwys Gyffesiadol. Ym mis Gorffennaf 1937, gosodwyd Niemöller dan 'warchodaeth amddiffynnol' (bu yno tan 1945). Yn ychwanegol, cafodd 800 gweinidog yn yr Eglwys Gyffesiadol eu rhoi mewn gwersylloedd crynhoi.

Er hyn, roedd 'brwydr yr eglwys' wedi achosi embaras mawr i Hitler, yn arbennig yn y cyfryngau yn UDA a Phrydain. Er mwyn lliniaru'r ffrae, rhoddodd Hitler reolaeth yr Eglwys Brotestannaidd yn ôl i'r sefydliad Eglwysig swyddogol. Ar yr un pryd, rhoddodd Hitler y gorau i'w ymdrech i reoli'r Eglwys trwy'r 'Cristnogion Almaenig'. Cryfhawyd y frwydr gan yr Eglwys Brotestannaidd i gadw ymreolaeth grefyddol trwy gefnogaeth miliynau o eglwyswyr.

Roedd yr Eglwys Babyddol yn fwy unedig o ran trefniadaeth ac yn llai rhwym i'r Wladwriaeth. Ym mis Gorffennaf 1933, arwyddodd Hitler Goncordat

gyda'r Fatican oedd yn gwarantu rhyddid yr Eglwys Babyddol i reoleiddio ei materion ei hun. Roedd gwrthdaro rhwng yr Eglwys Babyddol a'r gyfundrefn Natsïaidd yn cylchdroi o gwmpas ymdrechion gan y Natsïaid i danseilio'r Concordat a phenderfyniad yr Eglwys Babyddol i'w gynnal. Bu'r Pabyddion yn brwydro'n ddewr i gadw ei sefydliadau a'i hysgolion ei hun; brwydr a gollwyd yn y diwedd. Mae cryfder y gwrthwynebiad Pabyddol i'r gyfundrefn Natsïaidd yn cael ei bwysleisio gan y ffaith fod cyfanswm o 400 offeiriad Pabyddol wedi'u carcharu yn Dachau yn unig. Mae'n ymddangos bod anghydffurfiaeth Babyddol tuag at y gyfundrefn Natsïaidd wedi cael cefnogaeth mewn nifer o ranbarthau Pabyddol. Yn wir, cynyddodd y nifer oedd yn mynychu eglwysi Pabyddol yn sylweddol, yn arbennig yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

## Gwrthwynebiad y fyddin

Roedd yna elfennau cryf o wrthwynebiad o fewn y Fyddin ac ymysg elitau ceidwadol eraill.

**Grŵp Beck-Goerdeler**. Grŵp ar flaen gwrthwynebiad y fyddin i'r gyfundrefn Natsïaidd oedd Grŵp Beck-Goerdeler, dan arweiniad dau ffigur Ceidwadol: Cyrnol Ludwig Beck, ffigur blaenllaw yn y fyddin, a Carl Goerdeler, Arglwydd Faer Leipzig. Beck oedd pennaeth Staff Cyffredinol y Fyddin o 1935 i 1938. Yn wir, cafodd ymgais gyntaf y Fyddin i ddymchwel y gyfundrefn Natsïaidd ei chynllunio gan Beck yn ystod argyfwng Tsiecoslofacia yn 1938. Roedd Beck yn poeni y byddai Hitler yn cynllunio rhyfel oherwydd dymuniad yr Almaenwyr Swdetaidd i ymuno â'r Drydedd Reich. I rwystro hyn, anfonodd Beck genhadon i Brydain i rybuddio Llywodraeth Prydain am gynlluniau ymosodol Hitler yn erbyn Tsiecoslofacia. Ond ni lwyddodd y cynllun i gael gwynt dan adain gan na chafodd Beck unrhyw anogaeth o gwbl gan Neville Chamberlain, Prif Weinidog Prydain. Wedi'i siomi'n llwyr, ymddiswyddodd Beck o'i swydd yn y Fyddin. O hynny ymlaen, roedd Beck yn ffigur allweddol mewn rhwydwaith cymhleth o gynllwynwyr oedd yn benderfynol o ddymchwel y gyfundrefn Natsïaidd.


Cydymaith agos iawn i Beck oedd Dr Carl Friedrich Goerdeler, a ymddiswyddodd fel Maer Leipzig yn 1937 am ei fod wedi gwylltio ynglŷn â gorchymyn Natsïaidd i gael gwared ar gerflun o'r cyfansoddwr Iddewig, Mendelssohn, o ganol y dref. Goerdeler, Protestant a brenhinwr defosiynol, oedd y ffigur sifil blaenllaw o fewn y gwrthwynebiad i Hitler. Gweithiodd yn agos gyda Beck i adeiladu rhwydwaith o wrthwynebwyr i'r gyfundrefn Natsïaidd yn y Swyddfa Dramor, y Fyddin, heddlu Berlin a'r gwasanaethau cudd-wybodaeth.

Roedd Grŵp Beck-Goerdeler am i Hitler gael ei ddisodli, nid gan ddemocratiaeth seneddol, ond gan gyfundrefn awdurdodaidd yn seiliedig ar reolaeth cyfraith. Roedd y grŵp yn gwrthod dulliau'r Natsïaid, ond nid oeddent am i'r Almaen fod yn bŵer eilradd, ac roeddent yn cymryd yn ganiataol y byddai llywodraeth yr Almaen wedi'r rhyfel yn tra-arglwyddiaethu ar ganol Ewrop.

**Y Swyddfa Dramor.** Mewn cyswllt agos â grŵp Beck-Goerdeler oedd gwrthwynebwyr y gyfundrefn Natsïaidd yn y Swyddfa Dramor. Roedd nifer o ddiplomyddion y Swyddfa Dramor yn gweithio'n agos gyda'r gwrthwynebiad, yn fwyaf arbennig, Adam von Trott zu Solz, a drafododd gytundeb diplomyddol posibl gan yr Almaen a'r cynghreiriaid Gorllewinol. Aelod blaenllaw arall o grŵp gwrthwynebu y Swyddfa Dramor oedd Ulrich von Hassell, cyn-Lysgennad yr Almaen yn Rhufain. Cymerodd ran hefyd mewn trafodaethau ar ran y mudiad gwrthwynebu gyda ffynonellau cudd-wybodaeth Prydeinig ac Americanaidd yng nghamau olaf y rhyfel.

**Abwehr**. Grŵp oedd yn gysylltiedig â'r gwrthwynebwyr yn y Swyddfa Dramor oedd Abwehr, mudiad an-Natsïaidd oedd yn delio gyda chudd-wybodaeth filwrol. Roedd Abwehr yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â symudiadau Hitler i grŵp cynllwynwyr y Fyddin. Sefydlodd Abwehr ffeil gudd ar droseddau rhyfel y Natsïaid (Dogfennau Zossen) ac roeddent yn gobeithio y byddai hon yn cael ei defnyddio mewn treial rhyfel ar gyfer Hitler a Natsïaid blaenllaw. Y ddau ffigur blaenllaw o fewn Abwehr oedd fwyaf ynghlwm wrth y gwrthwynebiad i Hitler oedd y Llyngesydd Wilhelm Canaris, brenhinwr gyda barn adain dde, a Chyrnol Georg Hansen, Ceidwadwr adain dde.


The Granger Collection/TopFoto


Â © ullsteinbild/TopFoto


Â © ullsteinbild/TopFoto

*Witzeben (chwith) Canaris (canol) a Tresckow*

## Stauffenberg a chynllun bom aflwyddiannus 1944

Yng nghanol y rhwydwaith cymhleth o grwpiau elitaidd oedd yn gwrthwynebu cyfundrefn Hitler oedd swyddogion o fewn Byddin yr Almaen. Ymysg y gwrthwynebwyr blaenllaw yn y Fyddin oedd: yr Uwch-frigadydd Henning von Tresckow, ffigur allweddol yng Ngrŵp Canol y Fyddin ar y Ffrynt Dwyreiniol; Maeslywydd Erwin von Witzeben, a fyddai'n

ysgwyddo rôl Cadbennaeth y Lluoedd Arfog petaent yn llwyddo i gipio'r awdurdod oddi ar Hitler; a Chyrnol Claus Graf Schenk von Stauffenberg, y ffigur blaenllaw yn yr ymgais i lofruddio Hitler ar 20 Gorffennaf 1944.

| LLINELL AMSER | Gwrthwynebiad i Hitler a'r gyfundrefn Natsïaidd, 1933-45 | |
|---|---|---|
| 1933 | Ion | Penodi Hitler fel Canghellor yr Almaen |
| | Maw | Aelodau'r Democratiaid Cymdeithasol yn pleidleisio yn erbyn y Ddeddf Alluogi |
| | Gorff | Concordat yn cael ei arwyddo rhwng yr Almaen a'r Fatican |
| | Medi | Yr 'Eglwys Gyffesiadol' yn cael ei sefydlu gan Niemöller |
| 1934 | Mehefin | 'Noson y Cyllyll Hirion' – carthu gwrthwynebwyr gwleidyddol y Natsïaid |
| 1936 | Mai | Memorandwm yr Eglwys Gyffesiadol yn condemnio'r Natsïaid am 'ddad-Gristioneiddio bywyd' |
| 1937 | Maw | Pab Pius XI yn condemnio torri'r Concordat |
| | Maw | 800 o weinidogion yr Eglwys Gyffesiadol yn cael eu harestio a'u carcharu |
| 1938 | Mai | Cadfridog Beck yn gwrthwynebu 'polisi tramor ymosodol' Hitler |
| | Medi | Coup dan arweiniad Beck ddim yn cael ei gynnal ar ôl arwyddo cytundeb München |
| 1939 | Medi | Dechrau'r Ail Ryfel Byd |
| | Tach | Cais Georg Elser i lofruddio Hitler yn methu |
| 1940 | Ion | Cyfansoddiad Almaenig newydd, pe byddai Hitler yn cael ei ddymchwel, yn cael ei baratoi gan Goerdeler a von Hassell |
| 1942 | Mai | Cyfarfod cyntaf Cylch Kreisau |
| 1943 | Chwef | 'Rhosyn Gwyn' München, mudiad gwrthwynebu o du myfyrwyr, yn cael ei ddarganfod a'r arweinwyr yn cael eu dienyddio |
| | Maw | Bom ar awyren Hitler yn peidio â ffrwydro |
| | | Memorandwm cyfrinachol Goerdeler i'r cadfridogion yn annog coup |
| | Awst | Rhaglen gyfansoddiadol ar gyfer Almaen ôl-Hitler gan Gylch Kreisau |
| 1944 | Ion | Arestio arweinwyr Cylch Kreisau |
| | Gorff | Ymgais bom Stauffenberg |

Ganwyd von Stauffenberg, Pabydd defosiynol, yn 1907. Roedd yn or-ŵyr i arwr milwrol ym myddin Prwsia yn ystod Rhyfel Napoleon. Yn ystod yr ymgyrch yn Rwsia, dadrithiwyd Stauffenberg gan gyfundrefn Hitler. Yn 1943, fe'i hanfonwyd i Tunisia i helpu byddin yr Almaen i wrthsefyll ymdaith gynyddol UDA ond, ar 7 Ebrill 1943, cafodd ei gar ei daro gan dân y gelyn o un o awyrennau UDA. Collodd lygad, ei law dde, a dau fys ar ei law chwith yn y digwyddiad. Er gwaethaf yr anafiadau hyn, penderfynodd Stauffenberg aros yn y Fyddin am un rheswm: i ladd Hitler. Er mwyn trefnu'r llofruddiaeth, daeth Stauffenberg i chwarae rhan glòs gyda grŵp Beck-Goerdeler.

Tyfodd nifer swyddogion y Fyddin oedd â rhan yn y cynllun i ladd Hitler yn sylweddol gydol 1943. Yn ystod y flwyddyn honno, cafwyd dim llai na chwe ymgais aflwyddiannus gan gynllwynwyr y fyddin i ladd yr unben Natsïaidd. Yr agosaf y daethant i lwyddo oedd ar 13 Mawrth 1943 pan fu i fom (a roddwyd ar awyren Hitler ar daith o Smolensk i Rastenburg) fethu ffrwydro.

Yn ystod haf 1944, gyda'r Almaen ar fin cael ei threchu'n filwrol, roedd y dymuniad i ladd Hitler wedi mynd yn fwy taer. Penderfynodd grŵp Beck-Goerdeler wneud ymgais i ladd Hitler yn un o'r cyfarfodydd milwrol dyddiol a gynhelid gan yr unben Natsïaidd yn ei bencadlys milwrol yn Rastenburg, Dwyrain Prwsia. Ar 20 Gorffennaf 1944, gadawodd Stauffenberg fom (gyda ffiws hwyrdanio) mewn cês dillad o dan fwrdd, tra oedd Hitler yn cadeirio cyfarfod. Ffrwydrodd y bom yn ôl y cynllwyn, ond goroesodd Hitler gyda mân anafiadau'n unig. Methodd yr ymgais a chafodd y cynllwynwyr eu dal.

## Canlyniad cynllun bom 1944

Rhoddodd y cynllun bom aflwyddiannus yn erbyn Hitler gyfle i'r gyfundrefn Natsïaidd sathru ar y rhwydwaith cymhleth o grwpiau gwrthwynebu elitaidd. Dienyddiwyd tua 5,000 o wrthwynebwyr y gyfundrefn; roedd nifer ohonynt yn perthyn i deuluoedd pendefigaidd blaenllaw. Cafodd Stauffenberg (a oedd wedi sleifio ymaith i Berlin ar ôl ymgais y bom) ei saethu'n farw yr un noson. Ceisiodd Beck ei saethu ei hun, ond methodd, a gorffennwyd y gwaith gan filwr Almaenig. Cafodd y gweddill oedd yn rhan o'r cynllun eu dal, eu rhoi ar dreial, a'u dienyddio.

Mae'n ddigon hawdd ystyried cynllwynwyr y Ceidwadwyr a'r Fyddin fel ystafell injan y gwrthwynebiad i Hitler. Fodd bynnag, mae'n rhaid amodi hyn gyda'r wybodaeth bod nifer fawr ohonynt wedi tynnu eu cefnogaeth yn ôl oddi wrth Hitler dim ond oherwydd bod ei ffurf ef ar genedlaetholdeb yn fwy eithafol na'u fersiwn hwy, oedd yn ehangol ac awdurdodaidd yn yr un modd. Roedd Hitler 'cymedrol' yn iawn, ond nid oeddent yn hoffi'r Hitler 'allan o reolaeth'.

## Gwrthwynebiad comiwnyddol

Roedd yna nifer o grwpiau eraill oedd yn rhan o'r gwrthwynebiad i Hitler. O ran niferoedd, y grŵp gwrthwynebu mwyaf oedd y comiwnyddion. Cafodd y blaid Gomiwnyddol (KPD), gwrthwynebydd chwerw i'r blaid Natsïaidd cyn 1933, ei sathru unwaith y daeth Hitler i rym. O'r 300,000 o aelodau yn y KPD yn 1933, cafodd 150,000 eu carcharu mewn gwersylloedd crynhoi, a dienyddiwyd tua 30,000 (y nifer fwyaf i farw o unrhyw un o bleidiau gwleidyddol yr Almaen).

Sefydlodd y Comiwnyddion grwpiau cyfrin cudd oedd yn cynhyrchu llenyddiaeth wrth-Natsïaidd; câi'r rhain yn aml eu dosbarthu mewn ardaloedd diwydiannol i weithwyr ffatrïoedd. Roedd y Comiwnyddion hefyd yn dwbio graffiti gwrth-Natsïaidd a phosteri ar waliau yn y prif ddinasoedd, yn ogystal â helpu i drefnu difrod diwydiannol. Yn

1936, er enghraifft, trefnodd y comiwnyddion streic yng ngwaith Auto Union yn Berlin i brotestio yn erbyn y Gemau Olympaidd. Cafodd y gwrthwynebiad comiwnyddol ei niweidio rhywfaint gan y Cytundeb Natsïaidd-Sofietaidd yn 1939, ond fe'i hadfywiwyd ar ôl ymosodiad yr Almaen ar yr Undeb Sofietaidd ym mis Mehefin 1941. Ni dderbyniwyd y gyfundrefn Natsïaidd gan y mwyafrif o gomiwnyddion gweithredol, ac roeddent yn edrych ymlaen at y dydd pan fyddai'r gyfundrefn yn cael ei threchu mewn rhyfel.

**Cerddorfa Goch**. Is-grŵp o gomiwnyddion oedd y Gerddorfa Goch (*Rote Kappelle*), oedd hefyd yn chwarae rhan mewn gweithgareddau gwrthwynebu. Roedd y grŵp, oedd â chysylltiadau dylanwadol yn yr awyr ac yn y gweinyddiaethau economeg, yn trosglwyddo gwybodaeth gyfrinachol i'r Undeb Sofietaidd. Roedd y Gerddorfa Goch yn cynnwys gweision sifil, arlunwyr, llenorion a deallusion, oedd yn trafod eu hatgasedd cyffredinol o reolaeth awdurdodaidd y gyfundrefn Natsïaidd. Yn y diwedd, daeth y Gestapo i wybod pwy oedd arweinwyr y grŵp, a chawsant eu rhoi ar dreial a'u dienyddio yn 1942.

## Cylch Kreisau

Grŵp arall o wrthwynebwyr y gyfundrefn Natsïaidd oedd Cylch Kreisau, a gynhaliai gyfarfodydd yng Nghastell Kreisau yn Silesia, cartref teuluol Iarll Helmut James von Moltke, gor-gor-nai y Maeslywydd enwog. Roedd aelodau grŵp Kreisau yn trafod y math o lywodraeth a ddylai ddod i fodolaeth wedi i Hitler gael ei drechu yn yr Ail Ryfel Byd. Roedd y grŵp yn gweithredu fel man cyfarfod ar gyfer yr Almaenwyr hynny oedd yn dymuno cael cymdeithas fwy democrataidd, yn seiliedig ar fath o sosialaeth Gristnogol. Ar ôl y cynllun bom yn erbyn Hitler ym mis Gorffennaf 1944, datgelwyd gweithgareddau'r grŵp gan y Gestapo a chrogwyd y mwyafrif o'i aelodau.

## Gweithwyr diwydiannol

Y gweithwyr diwydiannol oedd y grŵp mwyaf i gymryd rhan mewn ambell weithred yma ac acw i herio'r gyfundrefn Natsïaidd. Roedd yna lefel uchel iawn o wrthwynebiad o du gweithwyr mewn dinasoedd diwydiannol mawrion. Yng ngharchar Dortmund, er enghraifft, roedd y mwyafrif o'r 21,823 o garcharorion oedd yn bwrw eu penyd am wrthwynebiad gwleidyddol wedi cofnodi eu galwedigaeth fel 'gweithiwr diwydiannol'. Mae'r un peth yn wir am gofnodion carcharau yn y mwyafrif o'r rhanbarthau diwydiannol eraill. Mae adroddiadau'r Gestapo yn dangos protestiadau gweithwyr eang ynglŷn â chodiadau mewn prisiau bwyd yn 1935. Roedd yna hyd yn oed streiciau gan weithwyr ffyrdd oedd yn adeiladu'r traffyrdd. Roedd gweithio araf bwriadol ar linellau cynhyrchu mewn ffatrïoedd arfau yn broblem mor gyffredin fel y cafodd ei wneud yn drosedd yn 1938. Fodd bynnag, nid oedd streiciau a gweithio araf yn rhywbeth eang, ac roedd y mwyafrif helaeth o weithwyr dan reolaeth ac wedi'u niwtraleiddio gan y gyfundrefn. Roedd nifer fawr iawn wedi suddo i apathi gwleidyddol, gyda llawer yn arddangos 'teyrngarwch anfodlon' tuag at y gyfundrefn.

## Democratiaid Cymdeithasol

Pleidleisiodd plaid y Democratiaid Cymdeithasol (SPD) yn erbyn y Ddeddf Alluogi (a sefydlodd reolaeth y Natsïaid yn 1933) ond chwalodd yn wirfoddol yn fuan wedyn. Aeth arweinwyr yr SPD yn alltud. Roedd yr SPD yn cynhyrchu pamffledi gwrth-Natsïaidd, ac adroddiadau cyfrinachol (SOPADE) oedd yn cael eu smyglo i mewn i'r Almaen a'u dosbarthu ymysg gweithwyr. Mae adroddiadau SOPADE yn dangos bod y gyfundrefn Natsïaidd wedi perswadio'r person cyffredin 'i adael gwleidyddiaeth yn nwylo'r bobl ar y brig' a bod nifer o gyn-bleidleiswyr yr SPD wedi troi'n fewnol tuag at fywyd preifat. Y prif broblemau i'r SPD o fewn yr Almaen Natsïaidd oedd diffyg cyllid ac arweinyddiaeth, a gelyniaeth barhaus o du'r comiwnyddion.

**Dechreuad Newydd.** Grŵp gwrthwynebu ymylol ar adain sosialaidd yr SPD oedd Dechreuad Newydd (*Neubeginnen*), yn cael ei ddylanwadu gan syniadau Lenin. Roedd aelodau'r grŵp hwn yn credu mai ymraniad ymysg y chwith oedd y rheswm allweddol pam y daeth Hitler i rym yn y lle cyntaf. O ganlyniad, roeddent yn ffafrio llywodraeth glymblaid adain chwith, yn cynnwys sosialwyr a chomiwnyddion, yn lle'r gyfundrefn Natsïaidd. Cynhyrchodd y grŵp bamffledi anghyfreithlon, yn hyrwyddo'r syniadau hyn, ond methasant ennill cefnogaeth y KPD a'r SPD i'w syniadau. Wedi i'r Gestapo sathru'n llym iawn ar y grŵp, cafodd ei chwalu.

**Myfyrwyr prifysgolion** ('**Mudiad y Rhosyn Gwyn**'). Roedd un o'r ymdrechion mwyaf ingol i brotestio yn erbyn y gyfundrefn Natsïaidd yn cael ei arwain gan fyfyrwyr prifysgolion. Prifysgol München oedd canolbwynt anfodlonrwydd y myfyrwyr. Arweinid y mudiad gan Sophie Scholl, myfyrwraig bioleg, ei brawd, Hans, myfyriwr meddygaeth, a llond llaw o gefnogwyr o'r un meddylfryd. Roedd y grŵp, a elwid y Rhosyn Gwyn, yn cynhyrchu llythyrau a phamffledi yn gwrthwynebu'r Natsïaid. Olrheiniodd y Gestapo y rhain yn ôl i Brifysgol München. Cafodd Hans a Sophie Scholl eu harestio, wedi iddynt gael eu darganfod gan ofalwr yn y brifysgol, yn dosbarthu pamffledi. Fe'u llusgwyd o flaen 'Llys y Bobl', lle cawsant eu dedfrydu i farwolaeth trwy gilotîn.

**Protestiadau'r ieuenctid.** Roedd yna nifer fawr iawn o bobl ifanc eraill fu'n gweithredu i herio'r gyfundrefn. Yn ddiamau, roedd y grwpiau hyn yn y lleiafrif, ond maent yn dangos nad oedd yr ieuenctid wedi'u pwylltreisio'n llwyr gan y gyfundrefn Natsïaidd. Weithiau, roedd protestiadau'r ieuenctid yn cynnwys ymddygiad 'anghydffurfiol' megis gwrando ar recordiau jas a *swing* Americanaidd. Galwid y grwpiau

hyn yn 'Ieuenctid *Swing*' ac 'Ieuenctid Jas'. Roeddent yn cael eu monitro gan y Gestapo. Problem fwy difrifol oedd twf gangiau stryd yn nifer o ardaloedd dosbarth gwaith y prif ddinasoedd. Roedd nifer o'r gangiau hyn yn rhoi curfa i aelodau Ieuenctid Hitler. Roedd y gangiau stryd hyn yn canu caneuon Americanaidd poblogaidd y dydd, yn malu siopau, ac yn dwbio graffiti gwrth-Natsïaidd ar waliau adeiladau cyhoeddus. Mae'n hawdd diystyru'r gweithgareddau hyn fel troseddau ieuenctid, ond dylid cofio bod perygl mawr iawn mewn ymddygiad o'r fath.

Roedd y grŵp ieuenctid anghydffurfiol mwyaf trefnedig, wedi'i leoli yn y Rheindir, yn cael ei adnabod fel 'Môr-ladron Edelweiss' (*Edelweisspiraten*). Roedd aelodau'r grŵp hwn rhwng 14 a 17 oed. Roeddent yn gwrthryfela yn erbyn anhyblygrwydd Ieuenctid Hitler trwy wisgo crysau siec nodedig gyda bathodyn Edelweiss arnynt. Pan ddeuent at ei gilydd, byddai môr-ladron Edelweiss yn canu caneuon gwerin cyn-1933 a pharodïau o ganeuon Ieuenctid Hitler. Penderfynodd y gyfundrefn Natsïaidd sathru ar y grwpiau ieuenctid gwrthryfelgar hyn. Ym mis Rhagfyr 1942, cafodd 700 aelod o Fôr-ladron Edelweiss eu harestio, a dienyddiwyd rhai o'r arweinwyr. Er hynny, parhaodd Môr-ladron Edelweiss i weithredu, ac ymunodd llawer ohonynt ag encilwyr o'r fyddin i ymosod ar y gyfundrefn ar ddiwedd y rhyfel.

## Casgliad

Mae methiant Gwrthwynebiad yn yr Almaen Natsïaidd yn stori o ddewrder yn wyneb anfanteision llethol. Roedd y grŵp mwyaf difrifol i fygwth cyfundrefn Hitler o fewn y Fyddin, ond roedd y rhai a gymerodd ran yng 'Nghynllun bom' 1944 yn grŵp o wrthgilwyr oedd heb gydgysylltu eu gwrthryfel yn dda. Nid oedd y mwyafrif o'r grwpiau y tu allan i'r Fyddin, ar wahân i'r Eglwysi Cristnogol efallai, yn fygythiad difrifol o gwbl i weithrediad y gyfundrefn Natsïaidd. Mae'n ffaith drist fod y mwyafrif helaeth o Almaenwyr wedi cefnogi cyfundrefn Hitler i'r diwedd un.

## DARLLEN PELLACH

F. McDonough, *Opposition and Resistance in Nazi Germany*, Caergrawnt – Cyfres *Perspectives in History, 2001*; A. Gill, *An Honourable Defeat, A History of German Resistance to Hitler*, Llundain, 1994; I. Kershaw, *The Nazi Dictatorship, Problems and Perspectives of Interpretation*, 3ydd argraff., Llundain, 1993; P. Hoffman, *Stauffenberg*, Caergrawnt, 1995; K. Von Klemperer, *German Resistance againt Hitler*, Rhydychen, 1992.

**ERTHYGLAU PERTHYNOL DETHOL** a gyhoeddwyd yn *new perspective*. Mae'r rhai sydd wedi'u dynodi â seren ar www.history-ontheweb.co.uk/STUDY CENTRE, (diogelir gan gyfrinair). 'The Rise of Nazism' gan Dr Conan Fischer, Cyf 1, Rhif 3*; 'Life in the Third Reich' gan Henry Metelmann, Cyf 2, Rhif 3*; 'Fascism' gan Dr Robert Pearce, Cyf 3, Rhif 1*; 'Germans against Hitler. Who resisted the Third Reich and why did they do it?' gan Dr Martyn Housden, Cyf 3, Rhif 3*; 'From Weimar to Hitler: continuity gives way to creeping revolution' gan Dr Edgar Feuchtwanger, Cyf 4, Rhif 3*; 'Nazi Anti-Semitic Policy and the Origins of the "Final Solution" gan Dr Lisa Pine, Cyf 6, Rhif 2*; 'How Hitler Consolidated his Power, 1933-4' gan Dr Edgar Feuchtwanger, Cyf 7, Rhif 1; 'Fatal Attraction, Why Nazism Appealed to Voters' gan yr Athro Roger Griffin, Cyf 7, Rhif 2.

Opposition and Resistance in Nazi Germany gan Frank McDonough
© new perspective 2003

Mae Frank McDonough, Prifysgol Lerpwl John Moores yn awdur ar nifer o destunau uwch i fyfyrwyr, yn cynnwys *Opposition and Resistance in Nazi Germany*, Caergrawnt – cyfres Perspectives in History, 2001.

Addaswyd ac atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Sempringham e-learning o New Perspective, Mawrth 2003: *Ein Volk, ein Reich, ein Führer*, Frank McDonough

Gwnaethpwyd pob ymdrech i olrhain a chydnabod deiliaid hawlfraint. Bydd y cyhoeddwyr yn falch o wneud trefniadau addas gydag unrhyw ddeiliaid na lwyddwyd i gysylltu â hwy.

Cyfieithydd: Gwenda Lloyd Wallace
Golygydd: Lynwen Rees Jones
Dylunydd: Richard Huw Pritchard